**Eitem: 13**
**Teitl:** Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2024/2025

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w gymeradwyo. |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2024/2025. |
| **Risg / Risk** | Mae methu â chydymffurfio â'n Safonau Iaith Gymraeg, gan gynnwys cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol yn amserol, yn cyflwyno risgiau rheoleiddiol ac i enw da. Fel corff a ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru, gallai diffyg cydymffurfio:<br><br>• Tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, yn enwedig ymhlith cymunedau Cymraeg eu hiaith<br>• Denu craffu gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru<br>• Effeithio ar ddarparu gwasanaethau mewn rhanbarthau â chynhwysedd isel yn y Gymraeg (e.e. Powys, Gwent, Cwm Taf Morgannwg), yn enwedig lle mae ymgysylltu'n dibynnu ar fodelau wyneb yn wyneb neu dros dro<br>• Cyfyngu ar ein gallu i gyflawni disgwyliadau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n hymrwymiadau yn y Cynllun Blynyddol.<br><br>Mae mesurau lliniaru ar waith drwy ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg, monitro parhaus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chamau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael |

| | |
|---|---|
| | â bylchau rhanbarthol/adrannol, hyder staff ac arferion recriwtio. |
| **Cyllid / Finance** | Dim yn berthnasol |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Hysbysiad Cydymffurfio Llais – 1/4/2024<br><br>Cynllun Blynyddol: Tyfu a gwella fel sefydliad<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Ein Pobl, Ein Diwylliant a'n Gwasanaethau (2,3 a 4) |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Bydd gan unrhyw newidiadau mawr i bolisi neu broses fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â Safonau'r Iaith Gymraeg eu Hasesiad Effaith Integredig eu hunain.<br><br>Mae anogaeth i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn parhau drwy'r ddau rwydwaith o dan gyfrifoldeb Pennaeth EAC a Lles. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Ben Eaton |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Rhagfyr 2024) |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Charysse Harper a Roxanne Treacy/Ben Eaton |
| **Dyddiad / Date** | 16 Medi 2025 |
| **Cefndir / Background** | |
| Mae gan Llais ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. | |

Daeth ein 'Hysbysiad Cydymffurfio' a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n manylu ar y safonau y mae'n rhaid i Llais lynu wrthynt fel sefydliad i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd.

Derbyniodd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddiweddariad 6 mis yn dilyn hunanasesiad gyda phob rhanbarth ac adran, a oedd yn cynnwys ein Bwrdd yn ymdrin â sgiliau iaith a pherfformiad yn erbyn pob un o'r safonau.

Rydym nawr ar fin cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. Byddwn yn parhau i gyhoeddi adroddiad unwaith y flwyddyn, ym mis Medi, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cydymffurfiaeth a'n cynnydd.

Yn yr adroddiad hwn fe welwch drosolwg o feysydd allweddol, am wybodaeth fanylach gweler yr adroddiad drafft terfynol (atodiad). Er y bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r themâu a'r heriau allweddol ar draws y sefydliad, ei ffocws yn bennaf yw myfyrio ar gynnydd a dathlu cyflawniadau, o'i gymharu â'n dyletswyddau cyfreithiol.

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi ystyried yr adroddiad llawn ac wedi cytuno i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'w gyhoeddi.

## Manylion / Detail

### Asesiad 'Red Amber Green' sefydliadol (RAG)

Nid oes unrhyw safonau wedi'u nodi fel rhai coch.

O'r 106 safon, mae 7 wedi'u nodi fel rhai ambr. Mae'r meysydd hynny a nodwyd fel rhai ambr wedi cael sylw naill ai yn y camau nesaf fel yr amlinellir yn yr adroddiad neu fel rhan o waith ehangach o fewn y sefydliad e.e., adolygiad o ddulliau/prosesau recriwtio, sefydlu sy'n rhan o'n Cynllun Blynyddol a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Fel yn y cyfnod 6 mis, bydd rhai yn newid dros amser wrth i brosesau ddod yn fwy ymgorffored, ac wrth i risg leihau, tra bydd eraill yn newid pan fydd camau gweithredu penodol wedi'u cwblhau.

### Meysydd allweddol, themâu a risgiau

Mae'r rhain wedi'u nodi drwy ein hunanasesiadau a monitro ansawdd ein Hasesiadau Effaith Integredig (AIA) sy'n ymgorffori ein dyletswyddau o dan y safonau yn ein hystyriaethau ynghylch polisi (yn yr ystyr ehangaf) a gwneud penderfyniadau.

**Terminoleg a chyfrifoldeb**
Yn ystod y cyfnod 6 mis, fe wnaethom nodi bod anghysondeb o ran dealltwriaeth o fewn rhanbarthau ac adrannau o ran nodi safonau penodol fel cyfrifoldeb canolog (tîm cenedlaethol).

Er enghraifft, mae safon 69 yn ymwneud â llunio polisi newydd ac adolygu a diwygio polisi presennol. Nododd y rhan fwyaf o ranbarthau hyn fel cyfrifoldeb canolog, pan fo pob rhanbarth yn cyfrannu at hyn.

Mae hyn yn debygol o fod oherwydd diffiniad ehangach o bolisi na'r hyn a ddefnyddir yn draddodiadol gan Lywodraeth Cymru (a all ymwneud â pholisi yn ei ffurf draddodiadol e.e., polisi staff), gan ymestyn yn hytrach i ystod o weithgareddau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl, e.e., gweithgareddau ymgysylltu, prosesau, gweithdrefnau ac ati.

Mae'r ddealltwriaeth hon wedi cynyddu ar gyfer rhai meysydd o'r sefydliad, fodd bynnag, cynhelir sesiwn atgoffa bellach yn y grwpiau Cyflawni Strategol a Chorfforaethol i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth glir o derminoleg a chyfrifoldeb.

**Llais lleol**
Mae maes risg sy'n ymwneud â'n dull Llais Lleol wedi'i nodi mewn rhanbarthau lle mae ychydig neu ddim siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ymhlith staff ymgysylltu, yn bennaf Cwm Taf Morganwg, Gwent a Phowys. Mae'r model ymgysylltu hwn, sydd wedi gweld canlyniadau cadarnhaol, yn defnyddio dull mwy 'pop-up' lle mae'n llai tebygol y bydd Eventbrite neu ddulliau eraill o gael mynychwyr posibl sy'n siarad Cymraeg ymlaen llaw yn cael eu defnyddio.

Nid yw'r dull hwn yn ffitio'n hawdd i'r safonau darparu gwasanaethau; fodd bynnag, mae rhagor o eglurder yn cael ei geisio gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch a yw Llais lleol wedi'u diffinio fel 'cyfarfod cyhoeddus' ac felly'n ddarostyngedig i safon 29.

Er gwybodaeth, mae safon 29 yn nodi 'os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd a lle caniateir cyfranogiad y cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid i chi hysbysu'r rhai sy'n bresennol ar lafar yn y Gymraeg a) eu bod yn cael defnyddio'r iaith Gymraeg, a b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.'

**Siaradwyr a dysgwyr Cymraeg**
Fel rhan o'n hamcan i dyfu fel sefydliad, mae'r ffordd rydym wedi gofyn

i'n pobl adrodd ar eu hasesiad sgiliau iaith Gymraeg wedi newid. Mae sgiliau bellach yn cael eu diweddaru ar gyfer pob person trwy ein system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM). Mae hyn er mwyn cynyddu rhwyddineb mynediad at y wybodaeth hon ar gyfer monitro, adrodd a'n gwasanaeth teleffoni.

Mae tua 85% o staff wedi datgelu eu sgiliau iaith Gymraeg i ni.

| **Lefel Sgiliau Cymraeg** | **Nifer y Gweithwyr** | **%** |
|---|---|---|
| 0-No Skills/ Dim Sgilliau | 50 | 46.7% |
| 1-Entry/Mynediad | 16 | 15% |
| 2-Sylfaen | 3 | 2.8% |
| 3-Intermediate/Canolradd | 4 | 3.7% |
| 4-Higher/Uwch | 4 | 3.7% |
| 5-Proficiency/Hyfedredd | 14 | 13.1% |
| Heb ei ddatgelu | 16 | 15% |
| **Cyfanswm** | **107** | **100 %** |

Gwahaniaeth: Mae datgeliad wedi cynyddu 14% ers ein hunanasesiad 6 mis. Dylid nodi y gallai fod rhywfaint o ddiffyg datgelu oherwydd absenoldeb salwch dros y cyfnod adrodd.

Nid yw tua 19% o'n staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg o lefelau 1-5 yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl. Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain sgiliau lefel mynediad neu sylfaen, fodd bynnag, nid pob un. Mae hyn yn dangos bod angen i ni wneud mwy i helpu ein staff i gynyddu eu hyder a theimlo eu bod wedi'u grymuso i ddefnyddio'r sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddyn nhw yn y gweithle, ni waeth a ydyn nhw'n rhugl ai peidio.

Manteisiodd un person o fewn y 12 mis diwethaf ar ein cynnig dysgu Cymraeg. Er bod hyn yn is nag y byddem wedi'i hoffi, rydym yn gwybod bod tua 8% o'n staff yn dysgu Cymraeg naill ai drwy ap neu ar-lein. Bydd Pennaeth yr Adran EAC a Rheolwr Datblygu Pobl a Sefydliadol yn cydweithio dros y misoedd nesaf i gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn y gallwn ei gynnig, gan ystyried sut y gallwn annog pobl i gymryd rhan a chynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

## Camau gweithredu yn y dyfodol

Mae rhagor o fanylion am yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn 2025-2026 i'w

gweld yn yr atodiad, fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg, ystyried sut rydym yn denu, recriwtio a chadw unigolion ag amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys y Gymraeg a diweddaru ein polisi iaith Gymraeg.

Y camau gweithredu sydd y tu allan i'r adroddiad, ond a fydd yn cynyddu sicrwydd yw:

- Bydd monitro ehangach o'n cydymffurfiaeth yn parhau fel arfer drwy gydol y flwyddyn, bydd Pennaeth EAC yn parhau i sicrhau ansawdd Asesiadau Effaith Integredig a gynhyrchir gan y rhanbarthau a'r tîm cenedlaethol fel rhan o weithgareddau'r cynllun blynyddol ar gyfer prosiectau, cyrff lleol a fforymau cyhoeddus i sicrhau bod safonau darparu gwasanaethau yn cael eu hystyried yn ddigonol a'u bodloni.

  Mae cymorth ar draws y sefydliad y tu allan i'r cynllun blynyddol sy'n cwmpasu'r safonau eraill yn parhau i gael ei gynnig a'i ddarparu e.e., adolygiadau polisi, datblygu strategaeth ac ati.

- Mae diweddariad wedi'i wneud i'r ffurflen Asesiad Effaith Integredig. Mae hyn yn egluro'r ystyriaethau penodol y mae'n rhaid i ni eu gwneud mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg, ac yn ymgorffori datblygu canllawiau mwy manwl ar gyfer y broses hon fel bod effeithiau'n cael eu hystyried yn gynhwysfawr ochr yn ochr â gwahanol nodweddion a all orgyffwrdd sy'n effeithio ar brofiadau pobl (croestoriadoldeb).

## Llywodraethu a sicrwydd

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n goruchwylio ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn craffu ar adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gynnydd yn erbyn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Iaith Gymraeg.

Mae pob rhanbarth ac adran yn gyfrifol am fonitro eu cydymffurfiaeth eu hunain, gyda goruchwyliaeth strategol gan Bennaeth EAC a Chyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu.

Yn ogystal â monitro mewnol, defnyddir adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg, a gesglir drwy weithgareddau

ymgysylltu, eiriolaeth cwynion, a fforymau cyhoeddus, i lywio ein dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaethau a nodi meysydd i'w gwella. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein dull o weithredu yn parhau i fod yn ymatebol, yn gynhwysol, ac yn cyd-fynd ag anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## Casgliad

Mae canlyniadau'r hunanasesiad yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan o ran ein cydymffurfiaeth gyffredinol. Er bod gennym rai meysydd twf o hyd, mae ein gwelliant yn galonogol o ystyried oedran y sefydliad a'r ffaith mai dyma'n blwyddyn gyntaf o weithredu'r safonau fel y corff annibynnol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Dylai'r camau gweithredu ar gyfer 2025-2026 ochr yn ochr â monitro rheolaidd ac arfer myfyriol gynyddu hyder a rhoi sicrwydd pellach yn y dyfodol.